

Archwilio Ein Byd

Teithiau



Fersiwn Estynedig

Archwilio Ein Byd

Teithiau

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau, Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrandio ar storïau eu ffrindiau ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Ein Byd* yw:

Plant 3 – 5 oed
Dathliadau
Fi fy hun ac Eraill
Adegau a Thymhorau


Plant 5 – 7 oed
Teithiau
Pobl Arbennig
Arwyddion a Symbolau





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn siarad gyda'u ffrindiau am yr holl bethau arbennig maen nhw'n eu gwneud ac yn eu gweld. Heddiw, mae Aled a Siân yn dweud wrth eu ffrindiau am eu diwrnod arbennig yn ymweld â Llangollen

yng Ngogledd Cymru. Maen nhw'n cofio sut gwnaethon nhw baratoi ar gyfer y daith cyn cychwyn. Fe wnaeth Aled frechdanau a llenwi poteli â dŵr. Fe ddaeth Siân o hyd i lyfr am injans stêm, a map.



Roedd Aled a Siân yn llawn cyffro wrth iddyn nhw gerdded dros y bont at yr hen orsaf reilffordd. Fe wnaethon nhw weld cymylau o stêm a mwg yn chwythu allan o'r injan

stêm wrth iddi bwffian allan o'r orsaf. Fe wnaethon nhw anadlu arogl siarp y glo yn llosgi oedd yn hofran yn yr awyr.




Ar y platfform, fe wnaethon nhw weld yr orsaf-feistr. Roedd yr orsaf-feistr yn gwisgo cap a siaced smart. Fe ddywedodd wrth Aled a Siân bod rheilffordd Llangollen wedi cau yn 1968, fel sawl rheilffordd arall bryd hynny. Ond roedd grŵp

o gefnogwyr wedi ailagor y rheilffordd saith mlynedd yn ddiweddarach. Fe glywodd Aled a Siân faint o bobl sy'n teithio i fyny ac i lawr y rheilffordd nawr.



Gwylodd Aled a Siân yr injan Stanier Black 5 yn tynnu mewn i'r orsaf yn araf, ac yn stopio. Fe ddringodd y ddau i mewn i un o'r hen gerbydau a gwthio'u hwynebau yn erbyn y

ffenestr. Fe wnaethon nhw ddilyn llwybr yr afon, a chleician mynd dros y draphont. Fe wnaethon nhw ddarllen enwau'r gorsafoedd ar y ffordd, Berwyn, Glyndyfrdwy, Carrog.



Mae Aled a Siân yn dweud yr hanes wrth eu ffrindiau am eu diwrnod arbennig yn ymweld â rheilffordd Llangollen. Maen nhw'n penderfynu y bydden nhw'n hoffi ymweld â

Llangollen eto, a dysgu sut i yrru injan stêm. "Nawr, dywedwch wrthym ni am eich diwrnod arbennig chi," meddai Aled a Siân wrth eu ffrindiau.




Mae Peter a Mary'n dweud wrth Aled a Siân am eu diwrnod arbennig yn ymweld ag eglwys gadeiriol, un dydd Sul yn niwedd mis Tachwedd. "Mae'r eglwys gadeiriol yn ganolfan pererindod Gristnogol," meddai Peter a Mary.

Maen nhw'n cofio sut gwnaethon nhw baratoi ar gyfer y daith cyn cychwyn. Fe ddaeth Peter o hyd i'r arweinlyfr. Fe ddaeth Mary o hyd i'w chadwyn gyda chroes arni.



Yno, yn yr eglwys gadeiriol, fe wnaethon nhw gyfarfod esgob. Roedd yr esgob yn gwisgo crys porffor a chroes ddisglair. Fe ddywedodd wrth Peter a Mary bod hanes yr

eglwys gadeiriol yn dechrau ymhell yn ôl pan ddaeth Dewi Sant â Christnogaeth i Orllewin Cymru. Fe aeth â nhw i weld creirfa Dewi Sant, nawddsant Cymru.



Yno, fe wnaethon nhw glywed am fywyd ac athrawiaeth Dewi Sant. Fe wnaethon nhw glywed am ffordd syml Dewi Sant o fyw, a'i bererindod i ddinas sanctaidd Jerwsalem. Fe

wnaethon nhw feddwl am eiriau olaf Dewi Sant i'r bobl, "Byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi."



Wedi i'r bobl ddod ynghyd, fe ddechreuodd nosi, ac fe lanwyd yr eglwys gadeiriol â golau canhwyllau. Fe wrandawodd Peter a Mary ar y côr yn canu carolau Adfent ar Ddydd Sul Cyntaf yr Adfent, a chanu gyda'r cantorion.

“Fe wnaeth ein taith, i'r eglwys gadeiriol , i ni deimlo'n rhan o'r Gymuned Gristnogol ehangach yng Nghymru,” meddai Peter a Mary.




Mae Nathan a Rachel yn dweud wrth Aled a Siân am eu diwrnod arbennig yn ymweld â synagog, un dydd Sadwrn. “Canolfan addoli Iddewig yw synagog,” meddai Nathan a

Rachel. Maen nhw’n cofio sut gwnaethon nhw baratoi ar gyfer y daith cyn cychwyn. Fe ddaeth Nathan o hyd i’r kippah a’r tallit. Fe ddaeth Rachel o hyd i’r llyfrau gweddi.



Yno, yn y synagog, fe wnaethon nhw gyfarfod y rabi. Roedd y rabi'n gwisgo'r kippah a'r tallit. Fe ddywedodd wrth Nathan a Rachel am yr athrawiaethau sydd wedi eu hysgrifennu ar

sgroliau'r Torah, a sut roedd Duw wedi rhoi'r athrawiaethau i Moses. Fe aeth â nhw i weld sgroliau Torah y synagog, oedd wedi eu cadw'n ddiogel yn Arch y Torah.



Yno, fe wnaethon nhw glywed am y teuluoedd cyntaf o Iddewon a symudodd i Gaerdydd i fyw ac i weithio. Fe wnaethon nhw glywed am y synagog gyntaf i gael ei hagor

yng Nghaerdydd yn 1858, a hanes y synagog. Fe wnaethon nhw feddwl am y ffydd Iddewig a'r traddodiadau a ddaeth gyda'r teuluoedd hyn i Dde Cymru.



Wedi i'r bobl ddod ynghyd, fe ddechreuodd gwasanaeth y Shabbat. Gwylodd Nathan a Rachel ddyn yn cario sgrôl y Torah at y ddarllenfa, ac fe wnaethon nhw wrando ar y

rabi'n darllen yn uchel i bawb ei glywed. "Fe wnaeth ein taith, i'r synagog, i ni deimlo'n rhan o'r Gymuned Iddewig ehangach yng Nghymru," meddai Nathan a Rachel.



Mae Ahmed and Salma yn dweud wrth Aled a Siân am eu diwrnod arbennig yn ymweld â mosg yn Ne Cymru, un dydd Gwener. “Man dysgu a man addoli Muslimaidd yw mosg,”

meddai Ahmed a Salma. Maen nhw’n cofio sut gwnaethon nhw baratoi ar gyfer y daith cyn cychwyn. Fe ddaeth Ahmed o hyd i’w gap. Fe ddaeth Salma o hyd i’w fêl.




Yno, yn y mosg, fe wnaethon nhw gyfarfod yr imam. Roedd yr imam yn gwisgo tiwnig lliw golau a chap. Fe ddywedodd wrth Ahmed a Salma pam bod addysg a

gweddïau pnawn Gwener yn bwysig yn y mosg. Fe aeth â nhw i weld y llyfrgell a'r neuadd fawr, lle mae dynion Mwslimaidd yn sefyll mewn rhesi i weddio.



Yno, fe wnaethon nhw glywed am y morwyr Mwslimaidd a ddaeth â masnach i Gaerdydd o wledydd pell Yemen a Somalia. Fe wnaethon nhw glywed am y mosg, sydd nawr yn sefyll ar y safle lle roedd y mosg cyntaf i gael ei agor yng

Nghaerdydd yn 1860. Fe wnaethon nhw feddwl am y ffydd Fwslimaidd a'r traddodiadau a ddaeth gyda'r Mwslimiaid cyntaf i Dde Cymru.




Wedi i'r bobl ddod ynghyd, ar ôl iddyn nhw glywed yr alwad, fe ddechreuodd y gweddïau pnawn Gwener. Gwyliodd Ahmed a Salma'r imam yn arwain y bobl i foli a

diolch i Dduw mewn gweddi. "Fe wnaeth ein taith, i'r mosg, i ni deimlo'n rhan o'r Gymuned Fwslimaidd ehangach yng Nghymru," meddai Ahmed a Salma.



Mae Rajeev a Meena'n dweud wrth Aled a Siân am eu diwrnod arbennig yn ymweld â theml yng Ngorllewin Cymru. "Mae'r deml yn ganolfan pererindod Hindŵaidd," meddai Rajeev a Meena. Maen nhw'n cofio sut gwnaethon

nhw baratoi ar gyfer y daith cyn cychwyn. Fe ddaeth Rajeev o hyd i'r rheolau am fwyd a diod. Fe ddaeth Meena o hyd i offrymau ar gyfer y gwasanaeth puja.



Yno, yn y deml, fe wnaethon nhw gyfarfod mynach. Roedd y mynach yn gwisgo mantell frown a gwyn, a chadwyn gleiniau. Fe ddywedodd wrth Rajeev a Meena bod hanes y deml wedi dechrau yn 1973, pan ddaeth Guru Sri

Subramaniam â'r ffydd Hindŵaidd i Orllewin Cymru. Fe aeth y mynach â Rajeev a Meena i weld Teml Murugan, cyn i'r gwasanaeth puja ddechrau.



Yno, fe wnaethon nhw glywed am fywyd ac athrawiaeth Guru Sri Subramanium. Fe wnaethon nhw glywed am ei fywyd yng ngwlad bell Sri Lanca, a'i athrawiaeth ynghylch

gwasanaethu pobl eraill ac addoli Duw. Fe wnaethon nhw feddwl am y ffydd Hindŵaidd a'r traddodiadau a ddaeth gyda Guru Sri Subramanium i Orllewin Cymru.




Wedi i'r bobl ddod ynghyd, roedd cloch yn canu ac aroglarth yn llosgi wrth i'r gwasanaeth puja gyda'r nos ddechrau. Gwyliodd Rajeev a Meena y mynachod yn offrymu bwyd, dŵr a thŷn i Arglwydd Murugan, ac fe

wnaethon nhw rannu'r prashad. "Fe wnaeth ein taith, i'r deml, i ni deimlo'n rhan o'r Gymuned Hindŵaidd ehangach yng Nghymru," meddai Rajeev a Meena.



Mae Aled a Siân yn mwynhau gwrando ar eu ffrindiau Peter a Mary, Nathan a Rachel, Ahmed a Salma, a Rajeev a Meena. Maen nhw'n mwynhau gofyn cwestiynau am y manau mae eu ffrindiau'n ymweld â nhw. Maen nhw wrth

eu bodd yn cael ffrindiau sy'n Gristnogion, Iddewon, Mwslimiaid a Hindŵiaid, gyda storïau mor ddiddorol i'w dweud wrthyn nhw.



Maen nhw'n dychmygu teithiau i'r eglwys gadeiriol, y synagog, y mosg, a'r deml. Maen nhw'n gweld yr esgob yn sefyll yng nghreirfa Dewi Sant, y rabi'n

darllen sgroliau'r Torah, y bobl yn gweddïo yn y neuadd weddïo fawr, a'r gwasanaeth puja yn Nheml Murugan.



Mae Aled a Siân yn meddwl am sut daeth crefyddau'r byd i Gymru. Maen nhw'n cofio Dewi Sant, Guru Sri Subramaniam, y synagog gyntaf a'r

mosg cyntaf. Maen nhw'n dechrau gweld sut mae crefyddau'r byd yn dylanwadu ar fywyd eu ffrindiau yng Nghymru heddiw.

Mae Aled a Siân yn archwilio teithiau arbennig ac maen nhw'n ymweld â hen orsaf reilffordd. Pan fyddan nhw'n dod yn ôl, mae Aled a Siân yn dweud yr hanes am eu diwrnod allan wrth eu ffrindiau, ac maen nhw'n gwranddo ar storïau eu ffrindiau hefyd. Wrth i'r storïau ddatblygu, mae Aled a Siân yn dechrau gweld sut mae crefyddau'r byd yn effeithio ar fywyd eu ffrindiau.



Bear Lands Publishing